# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL

## Ymgynghoriad ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau

## 05/10/23 - 23/11/23

# Cynnwys


**1** Y cynnig .......... 3

**2** Cefndir .......... 3

**3** Yr ymgynghoriad .......... 3

**4** Yr ysgolion dan sylw .......... 4

**5** Beth yw ffederasiwn? .......... 8

**6** Nodweddion ffederasiwn llwyddiannus .......... 9

**7** Beth fydd ffederaleiddio yn ei olygu i'ch ysgol? .......... 9

**8** Y broses ffederaleiddio .......... 9

**9** Delio â risgiau .......... 10

**10** Cyfansoddiad arfaethedig y Corff Llywodraethol Ffederal .......... 10

**11** Arweinyddiaeth a staffio .......... 11

**12** Trefniadau derbyn .......... 12

**13** Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori? .......... 12

**14** Amserlen arfaethedig .......... 13

**Atodiad A:** Ffederaleiddio – gwybodaeth gyffredinol

**Atodiad B:** Ffurflen Ymateb

# 1. Y Cynnig

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynnig Cyrff Llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau i ffederaleiddio'r dair ysgol o **16 Chwefror 2024** ymlaen, yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014).

Mae'r term ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae mwy nac un ysgol (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl. Yn yr achos yma mi fydda yna un corff llywodraethol gyda chyfansoddiad newydd sengl (Corff Llywodraethu'r Ffederasiwn) yn cymryd lle'r 3 gorff llywodraethol presennol. Bydd y dair ysgol yn cadw eu hunaniaeth eu hunain, ac ni fydd newid i enwau swyddogol y dair ysgol.

Enw'r ffederasiwn fydd *'Ffederasiwn Bro Tan Gelli'.*

Os caiff y cynnig ei dderbyn, daw'r ffederasiwn i rym ar **16 Chwefror 2024**.

# 2. Cefndir

Yn ddiweddar mae cyrff llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau wedi dod at ei gilydd i drafod y posibilrwydd sefydlu ffederasiwn. Yn ystod tymor yr Haf 2023, sefydlwyd gweithgor, oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o gyrff llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau er mwyn arwain ar y broses o ddatblygu'r cynnig i ffederaleiddio'r dair ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r gweithgor ar 12 Gorffennaf 2023 er mwyn trafod opsiynau posib a'r ffordd ymlaen er mwyn cynnal trefn ymgynghori ffurfiol ar y cynnig i ffederaleiddio'r dair ysgol.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn gan Gyrff Llywodraethol Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau, yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014), er mwyn canfod safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cynnig i ffedereiddio'r dair ysgol.

# 3. Yr Ymgynghoriad

**Bydd yr ymgynghoriad ar ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau yn rhedeg am gyfnod o 7 wythnos rhwng 5/10/23 a 23/11/23.**

Cyhoeddir y ddogfen hon fel rhan o'r broses ymgynghori, sef un o gyfrifoldebau'r cynigydd, yn unol â'r drefn statudol a osodir gan y Rheoliadau Ffedereiddio. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu beth fyddai ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau yn ei olygu, yn ogystal ag egluro sut y medrwch chi gyflwyno eich sylwadau ar y cynnig.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen yn debygol o roi ateb i'r cwestiynau mwyaf cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Yn ogystal, mae **Atodiad A** yng nghefn y ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau ac atebion sydd wedi eu llunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ffederaleiddio unrhyw ysgol yng Nghymru.

Os bydd gennych unrhyw ymholiad pellach, yna mae croeso i chi gysylltu â Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys neu Ysgol Tanygrisiau.

### Pwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad?

Yn unol â gofynion y Rheoliadau Ffederaleiddio, mae'n ofynnol i'r cynigydd ymgynghori â'r canlynol:

- Rhieni a gwarchodwyr pob disgybl yn y dair ysgol
- Holl staff y dair ysgol
- Undebau llafur perthnasol
- Holl lywodraethwyr y dair ysgol
- Aelodau Lleol dalgylch y dair ysgol
- Cynghorau Cymuned Ffestiniog a Maentwrog

Mae'r ddogfen hon wedi ei dosbarthu i'r uchod, ac mae copïau caled ar gael yn Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau, ar gais.

### Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

Bydd penaethiaid yr ysgolion yn cynnal sesiwn gyda chynghorau ysgol y dair ysgol er mwyn casglu barn y dysgwyr. Mi fydd penaethiaid y dair ysgol yn annog gweddill disgyblion yr ysgolion i fynegi eu barn yn ogystal.

### Sut i ymateb i'r ymgynghoriad?

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r **ffurflen ymateb** sydd ar ddiwedd y ddogfen a'i hanfon at:

- drwy'r post at:

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Bro Cynfal,<br>Llan Ffestiniog,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 4NF | Ysgol Edmwnd Prys,<br>Gellilydan,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 4DY | Ysgol Tanygrisiau,<br>Tanygrisiau,<br>Blaenau Ffestiniog,<br>Gwynedd,<br>LL41 3SU |

- dros e-bost at: pennaeth@edmwndprys.ysgoliongwynedd.cymru / pennaeth@tanygrisiau.ysgoliongwynedd.cymru

**Noder** – Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **23 Tachwedd 2023**.

## 4. Yr ysgolion dan sylw

### Ysgol Edmwnd Prys

Mae Ysgol Edmwnd Prys yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg ac yn darparu addysg ar gyfer 20 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed. Lleolir yr ysgol ym mhentref Gellilydan, ger Blaenau Ffestiniog.



Gweledigaeth yr ysgol yw:
*"Datblygu pob plentyn hyd eithaf ei allu mewn awyrgylch hapus, diogel a chynhaliol ar gyfer heddiw, yfory a'r dyfodol."*

Ein gobaith yw y byddem yn arfogi pob dysgwr, beth bynnag fo'i allu, gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer heddiw , yfory a'r dyfodol. Ein nod yw sicrhau fod pob dysgwr yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau ystod eang o brofiadau diddorol, amrywiol a chyfoethog.

Mae llais a lles pob unigolyn yn holl bwysig yma ac yn rhan blaenllaw o ethos yr ysgol. Datblygwn y sgiliau sydd eu hangen ar bob dysgwr i fod yn annibynnol, i gadw'n ddiogel, i wynebu a goresgyn heriau bywyd ac i fwynhau dysgu.

Mae ardal 'Stiniog a'r pentrefi cyfagos yn ardaloedd Cymreig sy'n llawn hanes a diwylliant. Mae hyn yn ganolbwynt i gwricwlwm yr ysgol gan ein bod yn grediniol bod angen dechrau wrth ein traed. Yn ogystal, rydym am ehangu gorwelion pob dysgwr i allu gwerthfawrogi amrywiaeth a rhyfeddod y byd a'u lle nhw fel unigolion ynddo.

Wrth wraidd popeth a wneir yn yr ysgol bydd y Pedwar Diben yn flaenllaw i sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu i fod yn:

- Ddysgwr uchelgeisiol, galluog
- Gyfranwyr mentrus, creadigol
- Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Unigolion iach, hyderus

Yn dilyn arolygiad Estyn yn 2018, barnwyd fod perfformiad presennol yr ysgol yn dda. Nododd yr arolygwyr:

*"Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg llwyddiannus ac maent yn gwneud cynnydd da ar lafar, yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf ohonynt wrth drafod, cyflwyno gwaith ysgrifenedig a darllen yn datblygu'n dda. Ychydig o ddisgyblion sy'n ymddangos eu gwir alluoedd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu'n ymestynnol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu mathemateg a'u cysyniadau rhifedd yn effeithiol ac mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn arddangos eu hyder a'u gallu yn bwrpasol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n deyrngar am eu disgyblion ac yn cynnig arweiniad a chymorth dibynadwy iddyn nhw a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu hymroddiad tuag at eu anghenion a'u diddordebau. Yn ogystal, maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae hi'n cydweithio'n agos iawn gyda'r pennaeth cynorthwyol. O ganlyniad, maent yn adeiladu ar gryfderau'r ysgol yn synhwyrol ac yn gwella'r meysydd i'w datblygu yn ddoeth trwy weithdrefnau gwella ansawdd cadarn."*

## Ysgol Tanygrisiau



Ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed yw Ysgol Tanygrisiau. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer 41 o ddisgyblion ac wedi'i lleoli ger tref Blaenau Ffestiniog ac yn gwasanaethu cymuned Tanygrisiau.

Yn dilyn arolygiad Estyn yn 2015, barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol hon yn **dda** oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- bod medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn dda
- erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol amrywiol
- bod lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dysgu
- bod athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi
- bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ar draws yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau

a fod rhagolygon gwella'r ysgol yn **dda** oherwydd:

- bod gan y pennaeth ac arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer ei datblygu ac maent yn cyfleu'r weledigaeth honno yn glir i bawb sy'n ymwneud â hi
- bod gan y pennaeth ac arweinwyr eraill ddarlun clir o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella
- bod y llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol i'w phrosesau strategol ac yn ei herio'n briodol ynghylch ei pherfformiad
- bod yr adroddiad hunan arfarnu yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol yn glir
- bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau

Gellir darganfod mwy am Ysgol Tanygrisiau drwy ymweld â'i gwefan: [Ysgol Tanygrisiau | Blaenau Ffestiniog]

## Ysgol Bro Cynfal



Mae Ysgol Bro Cynfal yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg ac yn darparu addysg ar gyfer 30 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed.
Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Llan Ffestiniog a'r cyffuniau.

Yn dilyn arolygiad Estyn yn 2016, barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol hon yn **ddigonol** oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg

- lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus
- medrau mathemategol rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gadarn
- rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n ddiogel pan fyddant yn defnyddio’r rhyngrwyd
- aelodau’r cyngor ysgol yn weithgar ac wedi cyflwyno nifer o weithgareddau sy’n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion
- yr holl staff yn modelu iaith glir a chywir, sy’n cyfrannu’n dda at safonau llafar y disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn ysgrifennu’n estynedig ar draws y cwricwlwm yn ddigon rheolaidd
- nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n llawn ym Mlwyddyn 2
- nid oes gan yr ysgol drefn cynllunio gadarn na chyson sy’n sicrhau dilyniant a pharhad
- mae gôr-arwain gan staff yn cyfyngu ar allu’r disgyblion i ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol nac i gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain
- nid yw’r marcio ar frig yr ysgol yn rhoi arweiniad digon clir i’r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig mewn pynciau Sylfaen

Barnwyd bod rhagolygon gwella’r ysgol hefyd yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n seiliedig ar godi safonau a chynnwys holl rhanddeiliaid ym mhrosesau’r ysgol
- cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio’n glir ar safonau a deilliannau disgyblion
- yr ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gyflwyno rhai mentrau sy’n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau
- y cynllun datblygu yn fanwl, yn nodi targedau penodol ac yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion

Yn dilyn ymweliad dilynol gan Estyn yn 2018, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn yr arolygiad yn 2016, gan nodi nad oedd unrhyw ymweliadau pellach i Ysgol Bro Cynfal mewn perthynas â’r arolygiad.

## Crynodeb o ystadegau’r ysgolion

Mae’r tabl isod yn dangos ystadegau am y tair ysgol:

| | Ysgol Bro Cynfal | Ysgol Edmwnd Prys | Ysgol Tanygrisiau |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr ysgol** | Llan Ffestiniog, LL41 4NF | Gellilydan, LL41 4DY | Tanygrisiau, LL41 3SU |
| **Ystod Oedran** | 3-11 oed | 3-11 oed | 3-11 oed |
| **Categori’r Ysgol** (Cymunedol [C], Gwirfoddol dan Gymorth [CWN], Gwirfoddol dan Reolaeth [CWR]) | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | Cymraeg | Cymraeg | Cymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer disgyblion ar y gofrestr (Medi 2023) | Meithrin | 2 | 3 | 3 |
| | Derbyn – Bl. 6 | 28 | 17 | 38 |
| | Cyfanswm | 30 | 20 | 41 |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (M-Bl.6) | Medi 2022 | 38 | 20 | 40 |
| | Medi 2021 | 52 | 32 | 52 |
| | Medi 2020 | 59 | 32 | 53 |
| | Medi 2019 | 62 | 32 | 66 |
| | Medi 2018 | 65 | 34 | 72 |
| Rhagamcanion disgyblion (ar sail cyfrifiad Medi 2023) | Medi 2024 | 36 | 19 | 35 |
| | Medi 2025 | 39 | 17 | 34 |
| | Medi 2026 | 39 | 16 | 33 |
| Capasiti (D – Bl. 6) | | 73 | 52 | 87 |
| Cost y disgybl (Medi 2023) | | £6,362 | £9,493 | £5,699 |
| Dyraniad cyllidol yr ysgol (Medi 2023) | | £197,716 | £217,203 | £246,198 |
| Canlyniad arolwg Estyn | | 5 x Digonol (Mai 2016) Cynnydd Da (Ionawr 2018) | 5 x Da (Tachwedd 2018) | 5 x Da (Chwefror 2015) |
| Categori Cyflwr Adeiladau (criteria'r Cyngor) | | C | B | B |

## 5. Beth yw ffederasiwn?

**Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae mwy nac un ysgol, a dim mwy na chwech, yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl.**

Mae ffederaleiddio yn gyfle i ysgolion weithio'n agosach a'i gilydd, tra'n cadw eu hethos a'u cymeriadau unigol.

Dyma grynodeb o brif nodweddion ffederaleiddio'n ffurfiol:

- Sefydlu un corff llywodraethu fydd â throsolwg dros weithgarwch yr holl ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn ac yn cymryd lle'r cyrff llywodraethu presennol (gweler **adran 10**);
- Er bydd y dair ysgol yn parhau i gael eu cyllido ar wahân yn unol â fformiwla Cyngor Gwynedd, mae gan gorff llywodraethu ffederasiwn yr hyblygrwydd i ddefnyddio cyllidebau mewn modd sydd orau i gwrdd ag anghenion y dair ysgol;
- Bydd penodiadau staff, gan gynnwys unrhyw swyddi arweinyddion a rheolaethol, yn cael eu cytuno ar y cyd dan gyfrifoldeb y Corff Llywodraethu Ffedereiddiedig;
- Mae'n opsiwn i'r dair ysgol gael eu harwain a'u rheoli gan un pennaeth;

- Bydd yr ysgolion sydd wedi'u ffederaleiddio yn cadw eu hunaniaethau unigol. Byddant yn parhau i fod yn atebol i'r Awdurdod Addysg Leol.

- Bydd yr ysgolion yn cael eu harolygu yn unigol gan Estyn gydag amseriad arolygiadau y dair ysgol yn debygol o gydredeg.

## 6. Nodweddion ffederasiwn llwyddiannus

Dylai system ffederaleiddio effeithiol gynnwys ymdeimlad o hunaniaeth gyfrannol rhwng ysgolion mewn ardaloedd sy'n ddaearyddol agos, a chreu ymdeimlad o gymuned gynhwysol.

Dylai bod ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin a gweledigaeth ar y cyd rhwng ysgolion i wella cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd y plant.

Mae gan ffederasiwn sy'n gweithio'n dda strwythur rheoli cryf a chlir sy'n galluogi'r corff llywodraethu a'r pennaeth/iaid i edrych yn strategol ar wella ysgolion a bod yn greadigol wrth ystyried datblygiad a newid er budd y plant a'u cymunedau.

Dylai fod pawb ar bob lefel arweinyddol a rheolaethol yn yr ysgolion ymddiried yn ei gilydd, gyda pharodrwydd i fod yn agored, yn ddiffuant ac yn fodlon gweithredu ar y cyd er lles pawb o fewn y ffederasiwn.

Mewn ffederasiwn llwyddiannus mae ysgolion yn barod i ymrwymo amser ac adnoddau i sicrhau bod ffederaleiddio yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Rhaid bod ymrwymiad cryf i godi safonau a chyraeddiadau ysgolion y ffederasiwn a dylent weithredu i wella cynnydd eu plant yn barhaus.

## 7. Beth fydd ffederaleiddio yn ei olygu i'ch ysgol?

Credai'r Cyrff Llywodraethol mai ffederaleiddio fyddai'r ffordd orau i gefnogi disgyblion, staff, a chymunedau'r ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cais gan y llywodraethwyr i ffedereiddio yn yr hir dymor.

Mae nifer o fanteision eraill i ffederaleiddio, gan gynnwys sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion drwy iddynt rannu un corff llywodraethol ac o bosib un pennaeth. Bydd ffederaleiddio hefyd yn golygu y gellir cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau'r ysgolion.

**Ni fydd** ffederaleiddio'r dair ysgol yn golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant.

- Er bydd y dair ysgol yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel tair ysgol ar wahân ac yn cadw'u henwau presennol.
- Bydd plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion a chan yr un staff.
- Ni fydd unrhyw newid yng ngwisgoedd yr ysgolion.

## 8. Y broses ffederaleiddio

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer proses ffederaleiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer cyrff llywodraethu ac Awdurdodau Lleol yn rhestru'r camau isod ar gyfer cynnal proses ffederaleiddio. Bydd y tri corff llywodraethol yn dilyn y drefn yma.

**Cam 1:** Mae cyrff llywodraethol y dair ysgol yn datgan diddordeb yn y posibilrwydd o ffederaleiddio, gofyn am arweiniad gan yr Awdurdod Lleol, cynnal trafodaethau, cytuno i ystyried yr opsiwn o ffederaleiddio, hysbysu staff ac undebau staff, sefydlu gweithgor a chytuno dyddiad gweithredu'r ffederasiwn.

**Cam 2:** Paratoi dogfen ymgynghori, cytuno strwythur llywodraethu, enw ar gyfer y ffederasiwn, ystyried strwythur staffio a datblygiad hirdymor strwythur y ffederasiwn a thrafod materion ariannol ac adnoddau dynol.

**Cam 3:** Cynnal ymgynghoriad gyda phlant, rhieni, staff, undebau llafur, llywodraethwyr ac unrhyw rai arall perthnasol er mwyn casglu eu sylwadau ar yr opsiwn o ffederaleiddio.

**Cam 4:** Arweinwyr ysgolion, yr Awdurdod Lleol a chyrff llywodraethu i ddechrau ystyried a diffinio rolau'r arweinwyr, llunio strwythur staffio arfaethedig a disgrifiadau swydd ar gyfer unrhyw swyddi newydd.

**Cam 5:** Yn dilyn yr ymgynghoriad, creu adroddiad er mwyn ystyried yr ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Cam 6:** Cyrff llywodraethol unigol i gyfarfod ar y cyd i benderfynu'n derfynol i fynd ymlaen â'r ffederaleiddio neu beidio.

**Cam 7:** Llunio offeryn llywodraethu, ethol corff llywodraethol ar gyfer y ffederasiwn a chychwyn gweithredu'r drefn reolaethol newydd h.y. un ffederasiwn yn lle'r dair ysgol unigol.

## 9. Delio â risgiau

Mae risgiau yn codi gydag unrhyw newid ac mae'n bwysig eu hadnabod ac ymateb iddynt. Mae'n bosib y bydd ffederaleiddio yn arwain at rhai risgiau ac mae'n bwysig bod y corff llywodraethu ffederal yn eu hadnabod a llunio strategaethau a chamau gweithredu i'w lliniaru.

## 10. Cyfansoddiad arfaethedig y Corff Llywodraethu Ffederal

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014) yn datgan *'rhaid i'r offeryn llywodraethu ar gyfer ffederasiwn bennu maint aelodaeth corff llywodraethu'r ffederasiwn, sef nifer na chaiff fod yn llai na 15 nac yn fwy na 27 o lywodraethwyr.'*

Mae'r rheoliad yma'n cyfeirio at ffederaleiddio rhwng 2 a 6 o ysgolion. Golygai hyn fydd niferoedd aelodau yn llai ar gyfer ffederasiwn o 2 ysgol nag ar gyfer 3-6 o ysgolion. Er enghraifft, mae'r rheoliadau yn dweud fod angen ethol o leiaf un ond dim mwy na dau riant-lywodraethwr o bob ysgol ffederal. Golygai hyn gyfanswm o rhwng 6 a 12 mewn ffederasiwn o 6 ysgol a rhwng 3 a 6 yn achos ffederaleiddio 3 ysgol, fel yn yr achos yma.

Felly, drwy ddilyn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014) dylai pob corff llywodraethol sydd wedi ffederaleiddio tair ysgol, fel yn yr achos yma, gynnwys isafswm o 15 ac uchafswm o 20 o lywodraethwyr. Mae'r tabl isod yn nodi niferoedd o bob categori mae rheoliadau'r Llywodraeth yn ei ganiatáu (colofnau chwith) a'r hyn argymhellir ar gyfer y ffederasiwn newydd (colofn dde).

| Categori'r llywodraethwyr | Nifer a ganiateir gan y rheoliadau | Nodiadau | Y Cynnig |
|---|---|---|---|
| Rhiant (etholedig) | 3-6 | O leiaf un ond dim mwy na dau o'r dair ysgol yn y ffederasiwn. Nid oes rhaid cael nifer gyfartal o'r dair ysgol. | 6 (2 o bob ysgol) |
| Athro (etholedig) | 1 - 2 | Efallai na chaiff pob ysgol ei chynrychioli, ond gellir defnyddio proses i sicrhau y caiff y dair ohonynt eu cynrychioli os oes 2 ar y corff llywodraethol. | 2 (i gylchu rhwng y 3 ysgol) |
| Staff (etholedig) | 1 - 2 | Fel yr uchod, ar gyfer athrawon. | 2 (i gylchu rhwng y 3 ysgol) |
| Awdurdod Lleol | 2 - 4 | Penodir gan yr Awdurdod Lleol – yn unol â'r drefn arferol bydd y cynnig cyntaf yn mynd i'r Cynghorwyr Sirol perthnasol. Os oes seddi gweigion yn parhau bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r Cynghorwyr am enwebiadau wedi iddyn nhw drafod â'r Pennaeth. | 3 |
| Cymunedol | 2 - 4 | Penodir gan y corff llywodraethol i sicrhau bod gan y corff llywodraethol y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ei fusnes, neu i sicrhau y cynrychiolir pob rhan o'r gymuned. | 4 |
| Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol | 1 | Ceir enwebiadau gan rai neu bob un o'r cynghorau tref / cymuned yn y ffederasiwn. Bydd y corff llywodraethol yn dewis ei lywodraethwr o blith yr enwebiadau a geir. | 1 |
| Pennaeth | 1-2 | Gall y pennaeth ddewis peidio â bod yn llywodraethwr. | 1 |
| | | **CYFANSWM** | **19** |

## 11. Arweinyddiaeth a staffio

Mae'r strwythur staffio presennol yn y dair ysgol fel a ganlyn:

| | Ysgol Bro Cynfal | Ysgol Edmwnd Prys | Ysgol Tanygrisiau |
|---|---|---|---|
| **Pennaeth** | 1 (0.5 Cyfwerth a llawn amser) | 1 (0.5 Cyfwerth a llawn amser) | 1 (1 Cyfwerth a llawn amser) |
| **Staff Addysgu*** | 2 (2 Cyfwerth a llawn amser) | 3 (2 Cyfwerth a llawn amser) | 2 (2 Cyfwerth a llawn amser) |
| **Cymhorthyddion** | 2 (60 awr) | 2 (45.88 awr) | 4 (74 awr) |
| **Clerciol** | 0 | 0 | 1 (6 awr) |

*Noder fod y penaethiaid cynorthwyol wedi eu cynnwys o dan y pennawd Staff Addysgu

Os ffederaleiddio, gall y corff llywodraethu ffederal benderfynu penodi **un pennaeth** yn swyddogol i reoli'r dair ysgol.

Yn ogystal, os gweithredir y cynnig i ffederaleiddio, rhagwelir y bydd strwythur staffio'r dair ysgol fel a ganlyn:

| | Ysgol Bro Cynfal | Ysgol Edmwnd Prys | Ysgol Tanygrisiau |
|---|---|---|---|
| **Pennaeth** | 1 pennaeth i arwain y dair ysgol | | |
| | (0.3 Cyfwerth a llawn amser) | (0.3 Cyfwerth a llawn amser) | (0.3 Cyfwerth a llawn amser) |
| **Staff Addysgu*** | 2 (2 Cyfwerth a llawn amser) | 3 (2 Cyfwerth a llawn amser) | 2 (2 Cyfwerth a llawn amser) |
| **Cymhorthyddion** | 2 (60 awr) | 2 (45.88 awr) | 4 (74 awr) |
| **Clerciol** | 0 | 0 | 1 (6 awr) |

*Noder fod y penaethiaid cynorthwyol wedi eu cynnwys o dan y pennawd Staff Addysgu

Ar sail rhagolygon, rhagwelir y bydd diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 o ganlyniad i leihad yn niferodd y disgyblion. Bydd rhaid edrych ar y staffio yn flynyddol fel pob ysgol arall, gan mai niferoedd disgyblion sydd yn penderfynu ar y gyllideb derfynol.

Pe byddai unrhyw newid pellach i'r strwythur staffio yn dilyn sefydlu'r ffederasiwn, byddai hynny yn destun ymgynghoriad llawn gyda'r staff a'r undebau llafur perthnasol, yn unol â'r drefn arferol pan yn ymgynghori ar newid staffio mewn ysgol.

## 12. Trefniadau derbyn plant

Gan na fydd unrhyw ysgol yn cau fel rhan o'r broses ffederaleiddio, bydd mynediad i'r dair ysgol yn parhau i ddilyn Polisi Mynediad Cyngor Gwynedd.

## 13. Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori (23/11/2023) bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei baratoi, fydd yn cynnwys ymateb i unrhyw sylwadau fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyrff llywodraethol y dair ysgol er mwyn iddynt ystyried ymateb i'r sylwadau. Yna, bydd y cyrff llywodraethu unigol yn cyfarfod ar y cyd i benderfynu'n derfynol a ddylid bwrw ymlaen ai peidio, neu a ddylid addasu'r cynnig.

Bydd penderfyniad y cyrff llywodraethol yn cael ei rannu gyda'r holl rieni, dysgwyr a staff ac unrhyw fudd-deiliaid perthnasol eraill.

# 14. Amserlen arfaethedig

| | |
|---|---|
| **5 Hydref – 23 Tachwedd 23** | Cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgolion Bro Cynfal, Edmwnd Prys a Tanygrisiau |
| **12 Rhagfyr 2023** | Cyrff Llywodraethol Ysgolion Bro Cynfal, Edmwnd Prys a Tanygrisiau yn penderfynu os dylid ffederaleiddio ai peidio |

**Ia** ↓

**Na** ↓ Y 3 ysgol yn parhau fel ysgolion annibynnol

| | |
|---|---|
| **Rhagfyr 2023** | Cychwyn y broses o sefydlu Corff Llywodraethol ar gyfer y ffederasiwn |
| **16 Chwefror, 2024** | Ffederasiwn o'r 3 ysgol yn cael ei sefydlu. |

**ATODIAD A -**

**Ffederaleiddio – Gwybodaeth gyffredinol**

**Beth yw ffederasiwn?**

- Strwythur llywodraethu cyfreithiol yw ffederasiwn, sy'n galluogi rhwng dwy a chwech o ysgolion i rannu un corff llywodraethu sengl.
- Gwneir y penderfyniad i ffederaleiddio naill ai gan gyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw neu gan yr Awdurdod Lleol.
- **Mae pob ysgol sydd mewn ffederasiwn yn parhau'n agored yn ei chymuned ac yn cadw ei chyllideb, ei chymeriad, ei gwisg ysgol, ei threfniadau derbyn a'i hethos ei hunan, a bydd yn cael arolygiad ei hunan gan Estyn.**

**Pa fanteision y mae ffederaleiddio'n eu cynnig i'r disgyblion?**

Gall ffederaleiddio gynnig llawer o fanteision -

- Parhau i gael mynediad i addysgu arbenigol, chwaraeon tîm ac arbenigedd cwricwlaidd ehangach.
- Parhau i rannu arferion gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol arbennig i ddisgyblion.
- Parhau i gynllunio cyfleoedd arbennig i'r disgyblion wrth bontio.
- Parhau i ddatblygu, rhannu a meithrin gwybodaeth a sgiliau.
- Bydd ysgolion sy'n ffederaleiddio yn aros yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol.
- Ychwanegu at fudd cyffredinol, lles a chyflawniad pob un o'r disgyblion.

**Sut y bydd ffederaleiddio'n gweithio?**

- Ychydig iawn o newid bydd ar drefniadau dydd i ddydd yr ysgolion. Y corff llywodraethu a'r pennaeth fydd yn penderfynu sut y caiff y ffederasiwn ei strwythuro a'i weithredu. Y bobl hyn sydd yn y sefyllfa orau i wneud yn sicr bod gweithrediadau a threfniadau'r ffederasiwn yn cyfateb i anghenion pob un o'r ysgolion.

**A fydd yr athrawon a'r plant yn symud o ysgol i ysgol?**

- Nid oes disgwyliad i staff presennol na disgyblion deithio o un ysgol i'r llall.

**Ai ymgais i arbed arian yw ffederaleiddio?**

- Na. Mae'n ymwneud â chyfuno adnoddau'r ysgolion er mwyn parhau i gynnal perfformiad a safonau cyrhaeddiad rhagorol a chyflawni rhagor er budd y plant drwy, er enghraifft, ddarparu cyllid ar y cyd ar gyfer athro/athrawes llawn amser, neu athrawon cymorth.

**A fydd ffederaleiddio'n golygu bydd ein hysgol yn cael llai o arian gan yr Awdurdod Lleol?**

- Na. Ni fydd ffederaleiddio'n effeithio ar y ffordd y cyfrifir cyllideb ysgol unigol – bydd y dair ysgol yn parhau i gael eu cyllidebau ei hunain, ar sail y nifer o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol plws unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, bydd modd i'r ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau. Er enghraifft, pe bai'r ysgolion rhyngddynt yn dymuno penodi aelod o staff yn llawn amser, neu uwchraddio cyfarpar chwaraeon, gallai pob ysgol gyfrannu rhan o'r gost allan o'i chyllideb.

**Beth yw manteision ariannol ffederaleiddio?**

Gall ffederasiwn wella gallu'r ysgolion i gyrraedd safonau uwch. Y canlynol yw rhai o'r manteision:

- rhannu'r gost o brynu nwyddau a chyfleusterau;
- prynu mewn ffordd sy'n manteisio ar ddarbodion maint ac yn osgoi dyblygu; a
- mwy o gyfleoedd e.e. rhyddhau'r pennaeth i gynllunio'n strategol ar draws y ffederasiwn.

**A gaiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol gan y rhieni o'u hysgol yn unig neu gan rieni o bob ysgol yn y ffederasiwn?**

| |
|---|
| • Mae'n rhaid i bob ysgol gael o leiaf un rhiant-lywodraethwr a etholir gan y rhieni yn yr ysgol honno (neu a benodir gan y corff llywodraethu os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol), **ond ni chaniateir i ysgol gael mwy na dau riant-lywodraethwr.**<br>• Os penderfynir y dylai bob ysgol gael dau riant-lywodraethwr, ac os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol mewn ysgol benodol, neu os oes un yn unig yn sefyll, caiff y corff llywodraethu ffederal benodi rhiant-lywodraethwyr. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych fod ffederasiynau'n llwyddiannus?** |
| • Mae dogfen gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys sawl astudiaeth achos sy'n amlinellu sut y mae'r ysgolion hynny wedi elwa o'r broses ffederasiwn. Cyhoeddwyd adroddiad yn Lloegr gan Ofsted yn 2011 *'Leadership of more than one school - An evaluation of the impact of federated schools'*. Mae'r adroddiad yn datgan, "*ym mhob ffederasiwn yr ymwelwyd ag ef roedd y ffaith fod yr ysgolion wedi'i ffederaleiddio yn ffactor a oedd yn cyfrannu at y gwelliant*." |
| **Sut fydd ceisiadau mynediad disgyblion i'r ysgol yn gweithio?** |
| • Ni fydd derbyniadau yn cael eu heffeithio – bydd rhieni yn parhau i wneud cais ar gyfer pob ysgol ar wahân a bydd yr Awdurdod Lleol (Cyngor Gwynedd) yn parhau i benderfynu ar dderbyniadau. |
| **Pam y dylai ysgolion ffederaleiddio?** |
| • Mae cydweithio trwy gorff llywodraethu sengl yn galluogi ysgolion i gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg leol trwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd a chyfleusterau, yn ogystal â'u harferion da. Bydd y corff llywodraethu sengl yn fecanwaith effeithiol ac yn atebol ar gyfer cyfuno adnoddau'r ysgolion, gan gynnwys y staff a'r cyllidebau, rhyddhau amser yr uwch reolwyr, manteisio ar ddarbodion maint a gwella effeithlonrwydd. |
| **A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth mewn ffederasiwn?** |
| • Ni fydd ysgolion mewn ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth er y byddant yn rhannu corff llywodraethu sengl. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt eu dyraniadau cyllidebol eu hunain a bydd pob ysgol unigol yn cael ei harolygu gan Estyn. Bydd yr ysgolion hefyd yn aros yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, eu henw, eu hethos a'u gwisg ysgol eu hunain. Er bod pob ysgol yn cael ei chyllideb unigol ei hun a bod yn rhaid iddi roi cyfrif amdani, mae cyfle, drwy'r corff llywodraethu sengl, i ddefnyddio cyllidebau a rennir ymhlith yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ffederaleiddio yn gweithio ar y sail bod gan bob ysgol ei chryfderau a'i manteision penodol ei hun, boed yn gyfleusterau, yn staff neu'n adnoddau. |
| **Beth yw'r trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion ffederal?** |
| • Mae dogfen Estyn 'Pa bryd y cynhelir yr arolygiad nesaf o'r ysgol?' yn nodi canllawiau ar arolygu ysgolion ffederal. Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu ysgolion a gynhelir bob chwe blynedd (er bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried ymestyn hyn i saith) a llunio adroddiad unigol ar gyfer pob ysgol. Byddai hyn hefyd yn gymwys i ysgolion yn y ffederasiwn. Ni all Estyn symud arolygiad o ysgol i fod yn hwyrach na chwe blynedd (neu saith) ers ei harolygiad diwethaf **ond gall gynnal arolygiadau mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr ysgolion mewn ffederasiwn yn cael eu harolygu yn ystod yr un tymor, yn enwedig pan fydd gan yr ysgolion yr un pennaeth.** Byddai Estyn hefyd yn ystyried ceisiadau gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol i arolygu ysgolion yn ystod yr un tymor. **Byddai Estyn hefyd yn ceisio sicrhau bod aelodaeth y timau sy'n arolygu ysgolion mewn ffederasiwn yn gorgyffwrdd.** |
| **Beth sy'n digwydd i staff mewn Ffederasiwn? A fydd eu Hamodau Gwasanaeth yn newid?** |
| • Mewn ffederasiwn, byddai pob aelod o staff wedi'i gyflogi ar yr un amodau gwasanaeth â'r rhai presennol a chan yr un cyflogwr. Pwy bynnag yw'r cyflogwr staff presennol fydd y cyflogwr newydd o dan y contract cyflogaeth. Yn achos ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth. |

- Dylai gwaith cynllunio strategol ac ariannol ar y cyd olygu y gellir diogelu swyddi yn well mewn unrhyw gyfnod o gywasgu cyfunol ac y gellir gwneud y defnydd gorau o staff arbenigol, gan gydnabod bod gan bob aelod o staff cymorth ac addysgu sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Byddai staff yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd o fewn ymagwedd gydlynol er mwyn sicrhau cymunedau dysgu proffesiynol.
- Gall corff llywodraethu'r ysgolion ffederal benodi aelodau newydd o staff i weithio ym mhob ysgol yn y ffederasiwn. Gallai hyn gynnwys penodi pennaeth sengl i fod yn gyfrifol am yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, neu benodi Bwrsar neu berson sydd â sgiliau rheolaeth ariannol a/neu sgiliau rheoli busnes, i oruchwylio agweddau ar fusnes y ffederasiwn heblaw addysgu.

**A ellir cyfyngu ar ffederasiwn o ran amser?**

- Dylid ystyried bod ffederaleiddio yn ymrwymiad hirdymor, ac nid ystryw dros dro. Bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) neu'r cyrff llywodraethu wedi rhoi ystyriaeth ddofn i'r manteision a'r risg sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn, gan gynnwys ei heffaith ar gyflawniad plant a phobl ifanc. Byddai ffederasiwn yn sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad yr ysgolion. Cynlluniau ar gyfer y tymor canol a'r tymor hir fyddai cynlluniau o'r fath. Er gwaethaf hynny, mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn caniatáu i ysgolion unigol adael ffederasiwn, ac yn darparu ar gyfer diddymu ffederasiwn. Os bydd ysgolion a gynhwyswyd mewn ffederasiwn a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu yn penderfynu gadael y ffederasiwn, yna dylid cydsynio i gais ysgrifenedig neu pan fo’r corff llywodraethu ffederal yn gwneud y cynnig ei hunan.

**Beth yw'r gwahaniaethau rhwng ffederaleiddio ysgolion a chyfuno ysgolion?**

- Os bydd ysgolion yn uno, gallant barhau'n agored yn eu cymuned ond byddant wedyn yn un ysgol aml-safle, gydag un enw, un ethos, un gyllideb, un cymeriad ac un wisg ysgol. Un pennaeth fyddai gan yr ysgol ac y mae'n debyg y câi staff eu diswyddo neu y byddai angen iddynt ailymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd. Mewn ysgolion aml-safle, gallai'r ALl gau un o safleoedd yr ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i'r safleoedd eraill, heb fynd trwy unrhyw broses statudol o gyhoeddi cynigion.
- Mewn Ffederasiwn, bydd yr ysgolion yn parhau'n agored yn eu cymunedau ond byddant hefyd yn cadw eu hunaniaeth, eu henw, eu hethos, eu cymeriad, eu cyllideb a'u gwisg ysgol eu hunain. Byddai'r staff hefyd yn cadw eu swyddi.

**A allem newid enw'r ysgol neu roi'r un enw i bob ysgol yn y ffederasiwn?**

- Un prif symbyliad i ffederaleiddio, ac un o'i brif fanteision yw nad yw'r ysgolion yn colli eu hunaniaeth a'u henw, ond yn parhau'n sefydliadau ar wahân. Bydd enw pob ysgol sydd yn y ffederasiwn, yn ogystal ag enw'r ffederasiwn ei hunan, yn ymddangos ar yr offeryn llywodraethu newydd. Bydd angen, felly, meddwl am enw i’w rhoi ar y ffederasiwn.
- Rhaid i bob ysgol mewn ffederasiwn gadw ei rhif cyfeiriol unigryw gwreiddiol a'i chyllideb. Gallai fod yn fater pur gymhleth a dyrys pe bai pob un o'r ysgolion yn penderfynu newid ei henw ac yn penderfynu mabwysiadu enw sengl wrth orfod rhoi cyfrif am gyllidebau ar wahân.

**Beth yw'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn?**

- Mae bod yn rhan o ffederasiwn yn cynnig nifer o fanteision i ysgolion gan gynnwys dysgu a phrofiadau cymdeithasol ehangach i blant sy'n arwain at wella perfformiad disgyblion. Bydd ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arfer gorau, cyfleusterau ac arbenigedd. Gellir rhoi mwy o bwyslais ar strwythurau arwain a rheoli strategol a bydd gan staff gyfleoedd newydd i gydweithio. Gellir osgoi dyblygu ymdrech ac mae cyfle i hyrwyddo gwell arbedion maint.

Fe awgrymir bod y canlynol ymhlith rhai o’r heriau/risgiau posibl wrth sefydlu ffederasiwn -

- Angen adeiladu ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr â chymunedau ysgol
- Sicrhau fod ymrwymiad llwyr gan yr ysgolion sydd ynghlwm
- Mae angen gweithredu a datblygu cynlluniau a’r weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol

- Mae’n hanfodol cael strwythurau arwain clir
- Angen sicrhau digon o amser i bob aelod deimlo yn esmwyth ynghylch y newidiadau a gynigir.

Efallai y bydd materion sy'n ymwneud â chydberthnasau ac ymddiriedaeth i lywodraethwyr, penaethiaid a staff sy'n gweithio rhwng ysgolion. Dylai'r corff llywodraethu ffederal fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl a llunio strategaethau a chamau gweithredu i'w lliniaru.

## ATODIAD B – FFURFLEN YMATEB

Ffurflen Ymateb - Cynnig i Ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau

*Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau. Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd unrhyw sylwadau a wneir gennych chi ar gael yn gyhoeddus fel rhan o'r adroddiad dilynol ar yr ymgynghoriad, heb gyfeiriad i'ch manylion personol. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei thrin yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Nid oes gofyn i chi ddarparu eich manylion personol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amdanoch Chi** | | | **Dyddiad** | |
| **1. Nodwch eich buddiant yn yr ymgynghoriad hwn os gwelwch yn dda** | | | | |
| **Rwy'n ymateb fel...** *(Ticiwch y blwch perthnasol)* | Rhiant / Gwarchodwr (Ysgol Bro Cynfal) ☐ | Staff (Ysgol Bro Cynfal) ☐ | Llywodraethwyr (Ysgol Bro Cynfal) ☐ | Disgybl (Ysgol Bro Cynfal) ☐ |
| | Rhiant / Gwarchodwr (Ysgol Edmwnd Prys) ☐ | Staff (Ysgol Edmwnd Prys) ☐ | Llywodraethwyr (Ysgol Edmwnd Prys) ☐ | Disgybl (Ysgol Edmwnd Prys) ☐ |
| | Rhiant/Gwarchodwr (YsgolTanygrisiau) ☐ | Staff (Ysgol Tanygrisiau) ☐ | Llywodraethwyr (Ysgol Tanygrisiau) ☐ | Disgybl (Ysgol Tanygrisiau) ☐ |
| | Arall (nodwch): | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2. Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r adlewyrchiad gorau o'ch barn ynglŷn â'r cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau** | | | |
| **Ticiwch y blwch perthnasol** | Rwy'n cefnogi'r cynnig i ffedereiddio ☐ | Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall ☐ | Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i ffedereiddio ☐ |

| |
|---|
| **3. Darparwch eich sylwadau ynghylch y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Tanygrisiau os gwelwch yn dda.** |
| **Sylwadau:** |

| **4. Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** - A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi'n teimlo y dylai'r Cyrff Llywodraethol eu hystyried? Yn benodol, a yw'r cynnig yn debygol o gael mwy neu lai o effaith ar rai grwpiau o bobl gyda nodweddion cydraddoldeb? |
|---|
| |
| **5. Asesu'r Effaith ar y Gymraeg** - A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi'n teimlo y dylai'r Cyrff Llywodraethol eu hystyried mewn perthynas â'r effaith ar y Gymraeg, ac ar y Gymraeg yn y gymuned? |
| |

| **6. Asesu'r Effaith Llesiant** - A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi'n teimlo y dylai'r Cyrff Llywodraethol eu hystyried o safbwynt gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? |
| --- |
| |
| **7. Asesu'r Effaith ar y Gymuned -** A oes yna unrhyw faterion, neu effeithiau posib, rydych chi'n teimlo y dylai'r Cyrff Llywodraethol eu hystyried mewn perthynas â'r effaith ar y gymuned? |
| |

Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd unrhyw sylwadau a wneir gennych chi ar gael yn gyhoeddus fel rhan o'r adroddiad dilynol ar yr ymgynghoriad, heb gyfeiriad i'ch manylion personol.

☐ Ticiwch y blwch os nad ydych yn dymuno i'ch sylwadau gael eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad

**Unwaith byddwch wedi'i chwblhau, dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad canlynol:**

Ysgol Bro Cynfal,
Llan Ffestiniog,
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd,
LL41 4NF

Ysgol Edmwnd Prys,
Gellilydan,
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd,
LL41 4DY

Ysgol Tanygrisiau,
Tanygrisiau,
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd,
LL41 3SU

Os hoffech gwblhau'r ffurflen ymateb hon ar lein, cliciwch ar y linc isod.

Ffurflen Ymateb

**Neu dros e-bost at:** pennaeth@edmwndprys.ysgoliongwynedd.cymru / pennaeth@tanygrisiau.ysgoliongwynedd.cymru

**Dyddiad Cau: 23 Tachwedd 2023**
**Diolch yn fawr am ymateb i'r Ymgynghoriad**